# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID
# DYDD IAU, 21 MAWRTH 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 21ain Mawrth, 2019

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Williams

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Janet Axworthy, Sian Braun, David Hytch and Rebecca Stark.

**CYFRANNWYR:** Y Cynghorwyr Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Swyddog Datblygu Chwarae Sir y Fflint; Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Chwarae Cymru; Swyddog Dylunio Chwarae – Ymgynghorydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura a Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

## 41. DATGAN CYSYLLTIAD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Arian Cyfatebol ar gyfer cynigion ardaloedd chwarae a gofynnodd a ddylai ddatgan cysylltiad gan ei fod yn Gynghorydd Cymunedol. Bu i bob Aelod a oedd yn bresennol, ar wahân i Lynn Bartlett a'r Cynghorwyr Tudor Jones a Martin White, ddatgan cysylltiad personol mewn perthynas ag eitem rhif 4 ar y rhaglen - Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

## 42. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2018 a 31 Ionawr 2019.

20 Rhagfyr 2018

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at yr ail argymhelliad fel y dangosir ar dudalen 7 y cofnodion a gofynnodd a oedd gweithdy ar waith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion wedi'i drefnu. Cadarnhaodd yr Hwylusydd fod y gweithdy hwn wedi'i drefnu ar gyfer 12 Ebrill am 10.00am. Roedd gwahoddiad ar ffurf e-bost wedi'i anfon at yr holl Aelodau ac fe gytunwyd i ail gylchredeg hyn i'r Cynghorydd Heesom.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at ei sylwadau ar dudalen 7 y cofnodion a gofynnodd am gynnwys y canlynol ar ddiwedd y trydydd paragraff:-

‘sydd yn ffurf ar Gynllun Ariannu Preifat a daeth astudiaeth fanwl, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol y Deyrnas Unedig i’r casgliad bod y model menter cyllid preifat wedi bod yn ddrytach ac yn llai effeithlon wrth ddarparu ysbytai, ysgolion ac isadeiledd cyhoeddus eraill nag arian cyhoeddus. Bellach dim ond 10% o wahaniaeth oedd o ran cost i'r Awdurdod o gyllid cyfalaf yn erbyn Model Buddsoddi Cydfuddiannol, ac anogodd na ddylid ystyried y Model hwn.’ Yn flaenorol, roedd 50% o wahaniaeth ond yn yr adroddiad ym mhwynt 3.10 roedd wedi newid i 35% ac felly dim ond 10% o wahaniaeth oedd yn bod erbyn hyn a dyma’r rheswm pam y gofynnodd am y diwygiad hwn. Diolchodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Mackie ac roedd o’r farn y dylid cofnodi ei bwynt ond gwahoddodd yr Aelod Cabinet a’r Prif Swyddog i ddiweddaru’r Pwyllgor ar y mater.

Darparodd yr Aelod Cabinet Addysg y wybodaeth ddiweddaraf am y Model Buddsoddi Cydfuddiannol a dderbyniwyd gan CLlLC ac esboniodd y byddai 81% o’r gost yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru a 19% gan Awdurdodau Lleol ar y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gofynnodd y Cynghorydd Ian Smith a oedd unrhyw wybodaeth am y cyfraddau llog a godir mewn perthynas â benthyca’r Cyngor. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Swyddog bod y sefyllfa yn newid yn gyson gydag ansicrwydd gan Lywodraeth Cymru ar y manylion mewn perthynas â’r llwybr Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer cyllid ynghyd â Band B a Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif.

Cynigodd y Cynghorydd Dave Mackie, yn amodol ar y diwygiadau uchod, y dylid cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Geoff Collett..

<u>31 Ionawr 2019</u>
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2019.

<u>Materion yn Codi</u>

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 12 y cofnodion a gofynnodd am y wybodaeth ddiweddaraf ar y cyfraniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chostau Pensiynau Ysgol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y costau wedi’u talu gan y Llywodraeth Ganolog, roedd 85% wedi’i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru a fydd yn darparu’r 15% arall. Cadarnhawyd y byddai'r ysgolion yn derbyn y swm llawn o’r cynnydd pensiynau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ond roedd ansicrwydd o ran y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn newyddion da a'i fod yn gobeithio y bydd modd ariannu bargeinion tâl yn genedlaethol.

Ar dudalen 16, dywedodd y Cynghorydd Heesom ei fod wedi mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o’r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion ond nid oedd unrhyw un wedi cysylltu ag ef yn dilyn y cyfarfod. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog bod cyfres o gyfarfodydd wrthi’n cael eu cwblhau ac y byddai diweddariad ar gael yn fuan.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Yn amodol ar y diwygiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 43. ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CHWARAE

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Swyddog Datblygu Chwarae Sir y Fflint, Marianne Mannello (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru) a'r Swyddog Dylunio Chwarae – Hamdden a Llyfrgelloedd Aura a'u gwahodd i gyflwyno'r adroddiad. Darparodd yr adroddiad drosolwg o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir y Fflint 2019 a'r Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer 2019/2020. Roedd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol dan Fesur Plant a Theuluoedd Cymru 2010 i adrodd i Lywodraeth Cymru a byddai dogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru maes o law. Roedd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir y Fflint yn ddogfen fyw gyda Chynllun Gweithredu'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Roedd hwn yn ofyniad statudol ac amlinellodd yr awdurdod lleol sut yr oedd yn bwriadu mynd i'r afael â diffygion a chynnal lefelau presennol yn y cynllun gweithredu. Esboniodd y Swyddog Datblygu Chwarae y byddai'r Cyngor yn gallu cael mynediad at gyllid drwy gynlluniau gweithredu tuag at gynlluniau megis y cynlluniau chwarae sirol ac y gellir darparu gwasanaeth cyffredinol ar draws y sir i bob plentyn.

Mewn ymateb i sylw ar y ceisiadau llwyddiannus am gyllid, esboniodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru fod lobïo cenedlaethol yn parhau i geisio sicrhau cyllid ond roedd hyn yn dal yn ddibynnol ar yr arian oedd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Mackie y Swyddog Datblygu Chwarae am ei hymroddiad gan ddweud ei bod yn frwdfrydig, yn benderfynol ac yn ofalgar a bod yr adroddiad yn eithriadol o dda.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am wybodaeth ar y Strategaeth a oedd yn cysylltu meysydd chwarae a oedd yn rhan o Aura. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Datblygu Chwarae bod y Cyngor yn gysylltiedig ag Aura gyda'r Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a bod meysydd chwarae yn rhan fawr o hyn.

Yna gofynnodd y Cynghorydd Heesom sawl cwestiwn mewn perthynas â chyllid cytundeb adran 106 ar gyfer ardaloedd chwarae a ddarparwyd gan ddatblygwyr i'r ddarpariaeth Ysgol a gofynnodd a fyddai modd defnyddio peth o'r arian hyn ar gyfer darpariaeth ieuenctid a fyddai'n fuddiol iawn. Ymatebodd y Swyddog Dylunio Chwarae gan ddweud fod dwy ran i'r Cyllid Adran 106, y cyfraniad addysg a'r cyfraniad man agored cyhoeddus, ac nid oeddent yr un fath. Amlinellodd y broses o wneud penderfyniad ar gyfer dyrannu'r cyllid, boed hynny ar gaeau chwaraeon neu ardaloedd chwarae er enghraifft, cyfleusterau mannau agored cyhoeddus, a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gydag Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom fod cyllid Cytundeb 106 yn swm sylweddol o arian a gofynnodd sut yr oedd y cyllid yn cael ei fonitro. Dywedodd y Swyddog Dylunio Chwarae fod adroddiad arolwg i asesu cyflwr yr holl feysydd chwarae wedi'i gynnal a'i gyhoeddi. Adroddodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru ar y trafodaethau a gynhelir ar draws Gymru mewn perthynas â

chyllid Cytundeb Adran 106 i edrych ar yr holl ardaloedd o fannau agored y gallai plant chwarae arnynt. Nid oedd hon yn broses hawdd ond gyda'r templed cenedlaethol roedd potensial i edrych ar le'r oedd yr arian Adran 106 wedi cael ei wario mewn ysgolion a'r posibilrwydd o ymestyn oriau agor cyfleusterau'r ysgolion a fyddai wedyn o fudd cymunedol a byddai hefyd yn cyfrannu at yr asesiad man agored a'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y Cynghorydd Heesom yn falch o glywed hyn ond dywedodd nad oedd y datblygiadau bod amser yn cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd lle'r oedd angen mannau chwarae fwyaf ac roedd o'r farn y dylid cael dull i nodi tegwch o ran y dyraniad.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Smith fod cynghorau dan bwysau'n ariannol a gofynnodd beth fyddai'n digwydd pe bai'r cyllid ar gyfer cynllun chwarae'r haf yn dod i ben. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Datblygu Chwarae pe na bai'r cynllun mewn lle a phe na bai'r llithriant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn byddai hyn yn bryder. Roedd y Cynllun yn galluogi cynghorau i gael mynediad at grantiau a gytunwyd gyda phartneriaid gyda chyfranogiad y cynghorau tref a chymuned a chaniataodd y ddeddfwriaeth y gallu i wneud cynnydd.

Ychwanegodd y Cynghorydd Smith nad oedd hyn yn ofyniad cyllid statudol ar gyfer y Cyngor. Cytunodd y Swyddog Datblygu Chwarae â hynny ond dywedodd bod dyletswydd statudol ar y Cyngor i asesu a sicrhau cyllid a bod hyn yn llawer haws gyda'r cynllun mewn lle i alluogi'r Cyngor i symud yn gyflym unwaith bo'r cyllid ar gael. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru heb raglen cynllun chwarae haf cynhwysfawr a heb berthnasau gwaith da â gwasanaethau mannau agored a chefn gwlad. Cyfeiriodd at y ddogfen a'r 9 mater o fewn y ddogfen honno yr oedd rhaid i'r awdurdod lleol ymateb iddynt a dywedodd fod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i asesu. Adroddodd ar yr hyn yr oedd awdurdodau lleol eraill yn ei wneud i ddarparu ardaloedd chwarae ar gyfer plant a'r cyllidebau oedd ar gael ar gyfer hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Williams at gyllid y Cytundeb Adran 106 a ddefnyddiwyd o fewn ei ward a'r berthynas waith lwyddiannus oedd gan ei gymuned â'r Swyddog Dylunio Chwarae. Roedd y Gymuned yn gallu trafod a gwella'r ddarpariaeth chwarae a oedd o fudd i'r gymuned gyfan nid yn unig yr ardal ddatblygu. Adroddodd ar gyfarfod a gynhaliwyd yn y pentref i annog cyfraniad plant drwy'r clybiau ieuenctid ac yna dosbarthwyd y wybodaeth o amgylch yr ysgolion ac ati i benderfynu pa offer chwarae fyddai plant yn ei hoffi yn yr ardaloedd chwarae.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones a oedd plant a phobl ifanc wedi bod yn rhan o broses ddrafftio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019 / 20. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Datblygu Chwarae eu bod wedi cynnwys pobl ifanc mewn sawl darn o waith a chyfeiriodd yr Aelodau ar dudalennau 5, 6 a 7 o'r ddogfen a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda 600 o blant sydd bellach wedi'i gwblhau. Roedd y Cynghorydd Tudor Jones yn falch o weld eu bod wedi ymgynghori â'r plant.

Diolchodd y Cynghorydd Glyn Banks i'r tîm am adroddiad ardderchog ac am y gefnogaeth yr oedd Llanasa wedi'i chael gan y Swyddog Dylunio Chwarae. Gwnaeth sylw ar y ffaith nad oedd darpariaeth ar gyfer creu a chynnal ardal

chwarae ddynodedig ar safleoedd sipsiwn a theithwyr tan 2023 a gofynnodd pam nad oedd modd dwyn y dyddiad hwn ymlaen. Cadarnhawyd fod hyn yn anhysbys ar hyn o bryd oherwydd y gwaith arall a'r ddeddfwriaeth a gynhelir ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Byddai'r Swyddog Datblygu Chwarae yn darparu rhagor o wybodaeth ar y mater os yw ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin ei fod yn adroddiad ardderchog a lles ein plant a phobl o fewn y gymdeithas oedd wrth wraidd hyn. Cyfeiriodd at y Rhaglen Lles a Chymdeithasol a bod hyn wedi cyflwyno cyfleoedd eraill. Dywedodd y Swyddog Datblygu Chwarae fod y prosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar y rhaglenni hyn ein "henydau bychain o les" a bod gennym ddyletswydd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi drafft yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer 2019 a'r drafft o'r Cynllun Gweithredu 2019 / 20 a fydd yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2019; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi datblygiad parhaus Grŵp Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol Sir y Fflint i ddarparu fforwm aml-asiantaeth i fonitro'r Cynllun Gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019 / 20.

## 44. RHAGLEN YSGOLION IACH A CHYN YSGOL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu Iechyd, Lles a Diogelu adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad ymchwil Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Ysgolion Iach, Cynllun Cyn Ysgol Iach y bu pob un o'n hysgolion yn rhan ohonynt a'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol. Roedd y Rhaglen Ysgolion Iach wedi bod yn weithredol am 17 o flynyddoedd ac wedi darparu dull ysgol gyfan at les a bellach wedi ehangu i Ysgolion Cyn Ysgol Iach. Darparodd y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis diwethaf a chyfeiriodd aelodau at y targedau a ddengys yn Adran 1.04 a oedd wedi'u cwrdd ac roedd hefyd yn falch o gadarnhau fod 10% o ysgolion wedi ennill y statws gwobr ansawdd genedlaethol.

Parhaodd i ddarparu gwybodaeth am y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol a oedd yn darparu brecwast, cinio a chyfleoedd i wneud ymarfer corff a choginio ar ddau safle gyda chynigion i ymestyn hyn i Ysgol Uwchradd Y Fflint ac Ysgol Gynradd Queensferry. Cyfeiriodd yr Aelodau at y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion mewn partneriaeth â gwneuthurwyr polisïau Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cancer Research UK a Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru i gael data ar les. Bu i'r holl ddisgyblion ysgol uwchradd gymryd rhan yn yr astudiaeth yn yr hydref 2017 gydag 82% o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr arolwg. Roedd yr arolwg yn cynnwys bwyd, ffitrwydd a gweithgarwch corfforol, iechyd emosiynol, defnydd a chamddefnydd sylweddau a rhyw a pherthnasau. Roedd cael ysgolion i gymryd rhan yn llwyddiant aruthrol yn enwedig oherwydd pwysigrwydd y data. Yn y Gwanwyn 2018 roedd pob ysgol wedi derbyn ei adroddiad unigol ac ym mis Tachwedd 2018 cwblhawyd yr adroddiad sirol cyntaf. Roedd embargo ar ddata

cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Ebrill. Roedd Cynlluniau Gweithredu ym mhob ysgol a oedd dan arweiniad disgyblion ym mhob Ysgol Uwchradd ac roedd Cynllun Gweithredu Sirol yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cael ei rannu wedi i'r data cenedlaethol gael ei gyhoeddi. Roedd cynrychiolwyr o Brifysgol Caerdydd wedi ymweld â dau ddigwyddiad ysgol ac yna darparodd wybodaeth am yr elfennau pwysicaf. Roedd Sir y Fflint o fewn y cyfartaledd cenedlaethol ac roedd hyn yn y cynllun 4 blynedd a gydag arolwg arall yn cael ei gynnal yn yr hydref. Byddai'r data yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ac i sicrhau cyfleodd i ymgysylltu â rhieni yn y cynlluniau gweithredu.

Dywedodd y Cynghorydd Kevin Hughes fod hwn yn adroddiad ardderchog ond nid oedd yn un hawdd i'w ddarllen o ystyried bod y ffigyrau ar alcohol yn 51% a chyffuriau yn 31% gan nodi bod Canabis yn gyffur sy'n arwain at eraill ac ni ddylid ei fychanu. Mynegodd bryder o ran y 22% o blant 13 oed neu iau oedd yn weithredol yn rhywiol pan mae'r oedran cydsynio yw 16 mlwydd oed, roedd hwn yn ystadegyn pryderus iawn. Nid oedd y gymdeithas yn gwneud digon i'r plant hyn ac roedd angen i rieni chwarae mwy o ran. O ran yr ystadegyn o 41% yn cael eu bwlio, gofynnodd faint o hynny oedd yn fwlio ar-lein. Gofynnodd hefyd pa mor hyderus oedd y Cyngor yng nghywirdeb y ffigyrau.

Esboniodd yr Ymgynghorydd Dysgu fod yr ystadegau yn ganlyniad o bwysau ar y cwricwlwm cenedlaethol ar ysgolion a bod addysg bersonol a chymdeithasol wedi'i neilltuo gyda rhai ysgolion ddim ond yn cael 1 diwrnod iechyd bob hanner tymor. Roedd gan Iechyd a Lles chwe ffrwd ar y cwricwlwm cenedlaethol newydd a fyddai'n newid sut roedd ysgolion yn blaenoriaethu iechyd a lles. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein gyda phob plentyn yn gorfod darparu cydsyniad rhieni ac roedd rhaid ei gwblhau dan amodau tebyg iawn i arholiad yn yr ystafell TG yn yr ysgol. O ran cywirdeb, roedd yn anodd iawn i'w brofi ond roedd cwestiwn ar wahân ynghylch bwlio ar-lein a nododd 23% o'r disgyblion eu bod wedi cael eu bwlio ar-lein, a oedd yn ffigwr uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cytunodd y Cynghorydd Tudor Jones ei fod yn adroddiad ardderchog a gyflwynwyd yn dda ac roedd hefyd yn cytuno â sylwadau'r Cynghorydd Hughes. Cyfeiriodd at yr agweddau newidiol tuag at ysmygu er enghraifft, roedd nifer yr ysmygwyr bellach yn gostwng. Gofynnodd pryd y byddai'r arolwg hwn yn cael ei ailadrodd a fyddai'n allweddol er mwyn gweld gwelliant. Cyfeiriodd at y rhaglenni cyfoethogi gwyliau ysgol a gwnaeth sylw am rieni a oedd yn brwydro i fforddio'r prydau a gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i'r syniad o rannu'r flwyddyn academaidd yn bedwar tymor y flwyddyn.

Ymatebodd y Prif Swyddog gan ddweud mai awdurdodau unigol oedd â'r grym i wneud y penderfyniad hwnnw yn Lloegr, ond roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol gynnal eu gwyliau ar yr un adeg i gynorthwyo rhieni sydd efallai yn byw o fewn un sir ond yn gweithio yn un arall. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw newid gan Lywodraeth Cymru'n genedlaethol ar y mater. Cydnabu bod y cyfnodau gwyliau hir yn effeithio ar ddysg plant a gofynnodd a fyddai modd cynnwys hyn ar y rhaglen yn y dyfodol ond ychwanegodd nad oedd wedi gweld unrhyw beth gan athrawon ar y mater.

Roedd y Cynghorydd Heesom yn pryderu am y bwlch rhwng grwpiau cyfoedion ac roedd y ffigyrau o 70% o blant a oedd yn dibynnu ar eu ffrindiau yn

hynod bryderus. Dylid defnyddio hyn er mwyn adeiladu arno. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau gwasanaeth a'r gwaith gwella ysgolion oedd yn canolbwyntio ar hyn. Roedd yr holl Benaethiaid yn cytuno â'r blaenoriaethau hyn. Trafododd fesurau atebolrwydd a dangosyddion perfformiad y model cwricwlwm gydag addysg gymdeithasol wrth wraidd y cwricwlwm. Roedd y Gweinidog wedi cyhoedd newidiadau â materion craidd mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a gyhoeddwyd ar ddiwedd Ebrill.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at ddogfen a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol yr wythnos hon a oedd yn trafod ail gyfuno gwerthoedd cymdeithasol a oedd yn berthnasol i hyn ac yn cynnig cymysgedd o'r hyn yr oedd swyddogion yn ei ddweud. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu ei bod wedi cwrdd â chynrychiolwyr, yn cynnwys cynghorau ieuenctid a oedd yn ymgysylltu â phob rhan o'r awdurdod lleol ac yn nodi lles fel un o'r meysydd blaenoriaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Glyn Banks fod hwn yn adroddiad ardderchog ond roedd yn pryderu'n arw am y ffigyrau bwlio a nodwyd, sef 41%, a gofynnodd beth oedd ar y gweill i wella hyn. Cyfeiriodd at nifer y plant a oedd yn weithredol yn rhywiol a dywedodd ei bod hi'n anodd atal pobl ifanc rhag cael rhyw a gofynnodd, pe bai merch 13 oed a bachgen 14 oed yn mynd ar y nyrs ysgol a fyddai modd iddynt gael meddyginiaeth atal cenhedlu o'r ysgol. Ymatebodd yr Ymgynghorydd Dysgu i'r pwynt cyntaf mewn perthynas â bwlio gan ddweud bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cwblhau ymgynghoriad ar "Ganllawiau Parchu Eraill" a fyddai'n cael eu cyhoeddi eleni. Bu cryn dipyn o gamddealltwriaeth o ran yr hyn a olygir pan ddefnyddir y gair bwlio ac roedd y Canllawiau Cenedlaethol wedi bod yn ceisio llunio diffiniad clir o'r hyn yw bwlio a byddai hyn yn cael ei integreiddio i bolisi'r cyngor ar draws yr holl ysgolion.

Yna, fe ymatebodd i'r cwestiwn ynghylch atal cenhedlu ac fe amlinellodd y gwaith a oedd wedi'i wneud dros y 5 mlynedd diwethaf o amgylch y polisi addysg rhyw yn enwedig y cymorth a ddarparwyd gan y nyrs ysgol a oedd yn gallu darparu meddyginiaeth atal cenhedlu a chondomau ar y safle fel rhan o'i waith / gwaith. Roedd pob ysgol wedi mabwysiadu'r polisi sirol gydag asesiad risg o'r disgyblion yn cael ei gynnal cyn yr oedd unrhyw feddyginiaeth atal cenhedlu brys yn cael ei darparu.

Dywedodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin fod hwn yn bwnc emosiynol ond roedd yn tynnu sylw at ba mor ddifrifol oedd y Cyngor yn ystyried ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol a maethu. Dywedodd y Cynghorydd Tudor Jones ei fod yn edrych ymlaen at weld y data o'r arolwg nesaf a gynhelir yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Cynigodd yr Ymgynghorydd Dysgu i rannu'r Cynllun Gweithredu Sirol â'r Pwyllgor wedi i'r data cenedlaethol gael ei gyhoeddi.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Nodi'r cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy a'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru yn Sir y Fflint;

(b) Nodi trosolwg o faterion allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint, a all amharu ar eu gallu i gyrraedd eu llawn botensial.

(c) Bod y Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at yr angen am addysg bellach a mesurau ataliol, a’r angen i’r holl bartneriaid asiantaeth a rheini / gofalwyr gydweithio i addysgu a chyflawni newid.

## 45. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad i ddangos y cynnydd sydd wedi’i fonitro ar gyfer Chwarter 3 (Hydref i Ragfyr 2018) 2018/19 ar gyfer y flaenoriaeth ‘Cyngor sy’n Dysgu’ sy’n berthnasol i’r Pwyllgor. Tynnwyd sylw at feysydd canlynol yr adroddiad:-

- Soniodd yr Aelod Cabinet am gyfarfod cenedlaethol diweddar, yno codwyd y cwestiwn am ddiwrnodau hyfforddiant staff ac roedd yn hapus iawn â’r newyddion hyn. Er y cydnabyddir yr effaith ar rieni yn gorfod canfod gofal plant am ddiwrnod ychwanegol, roedd y cyfle i staff addysgu gael y diwrnod hwn gyda’i gilydd yn amhrisiadwy;
- Roedd y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn dal heb ei ddatrys ac roedd yn parhau i fod yn risg;
- Roedd Derbyniadau Ysgol ar gyfer mis Medi 2019 wedi dechrau ond roedd yr angen am hyblygrwydd yn parhau er mwyn delio â chyfnodau prysur o ran derbyniadau; a
- Threfnwyd gweithdy ar waith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion ar 12 Ebrill ond cyhoeddwyd yn ddiweddar y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid ar gael i Awdurdodau Lleol er mwyn i ysgolion gefnogi eu rhaglenni cyfalaf. Disgwylir am fwy o wybodaeth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y diwrnod hyfforddiant staff ychwanegol i drafod y cwricwlwm newydd a oedd yn amhrisiadwy i ysgolion gydweithio ac ystyried yr arferion gorau. Cytunodd y Prif Swyddog gan ddweud y byddai’r Gweinidog yn hoffi gweld awdurdodau lleol yn gweithio gyda’i gilydd yn rhanbarthol i sefydlu arfer orau.

Croesawodd y Cadeirydd yr arian a gynigiwyd ar gyfer atgyweiriadau ysgol ond ychwanegodd nad oedd y derbyniadau cyfalaf yno. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai’r cyllid incwm yn galluogi’r Cyngor i dalu am rai costau a oedd eisoes wedi'u hysgwyddo mewn perthynas â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ac yna byddai’r arian hynny ar gael i’w ail-fuddsoddi.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Tudor Jones ynghylch y gallu i gynyddu capasiti mewn ysgol lle mae uno ag ysgol arall wedi’i ystyried, dywedodd y Prif Swyddog, drwy gyfuniad o gyllid grant dynodedig a’r cyllid gan Lywodraeth Cymru, y byddai modd mynd i’r afael â hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at yr adroddiad brawychus diwethaf a sut yr oeddem yn ymdrin â phobl ifanc, yr ystafell dosbarth, y gymdeithas ac yn 1.09 sefydlu cyngor yr ifanc, adfywio rhai o’r cyfleoedd i bobl ifanc, roedd y Gwasanaeth Ieuenctid o bwysigrwydd mawr ac yn hynod werthfawr. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig yn symudol ac yn hyblyg wrth i dîm y rheng flaen ymweld â chymunedau er mwyn mynd i’r afael â phroblemau cyffuriau ac alcohol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 46. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn ei hystyried. Yn ystod y drafodaeth, cytunodd y Pwyllgor i wneud y newidiadau canlynol i'r Rhaglen:-

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai a gofynnodd a ddylid gwahodd cynrychiolydd o Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd i egluro sut maent yn gweld yr effeithiau ar ysgolion y cynigion ôl-16. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y rhan helaeth o ddisgyblion ôl-16 a all gael eu heffeithio o Goleg Cambria ac y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Coleg hefyd.

- Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog at y cyfarfod ar y cyd ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 7 Mehefin a dywedodd y byddai Estyn yn cynnal archwiliad o'r Cyngor ar yr wythnos yn dechrau ar 3 Mehefin. Roedd llawer o waith i Swyddogion cyn yr Archwiliad hwn a gofynnodd i'r Pwyllgor a fyddai modd aildrefnu'r cydbwyllgor yng ngoleuni hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks am gael anfon dymuniadau gorau gan y Pwyllgor at y Cynghorydd Sian Braun gan ei bod wedi torri ei ffibwla a'i chrimog. Gofynnodd hefyd am gael anfon llythyr at Mr David Hytch yn ei longyfarch yn dilyn ei briodas yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo drafft y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i diwygiwyd; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusygg wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ol yr angen.

## 47. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.55 pm)

…………………………

**Y Cadeirydd**